| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **22.01.25** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Diane King (Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc)** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Geraint Davies (Pennaeth Addysg)** |
| **Teitl** | **Ymweliad Estynedig gan Estyn ag Awdurdod Lleol 2024** |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y broses a ddilynwyd a chanlyniad Ymweliad Estyn â'r Awdurdod Lleol ym mis Hydref 2024 **(Atodiad 1)**.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I gyflwyno llythyr canlyniad Ymweliad Estynedig Estyn ag Awdurdod Lleol yn ddiweddar yn canolbwyntio ar Bresenoldeb ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Gwahoddir y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i gael gwybod beth yw manylion y llythyr hwn.

# 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Mae Estyn yn gwerthuso agweddau o wasanaethau addysg llywodraeth leol trwy amrywiaeth o weithgareddau yn aml. **(Atodiad 2)** Mae rhai o'r gweithgareddau yma'n arwain at werthusiadau sy'n cael eu cyhoeddi, ond dydi rhai eraill ddim. Mae'r gweithgareddau yma'n cynnwys

- Cyfarfodydd Rheolaidd gydag Arolygydd Cyswllt yr Awdurdod Lleol
- Cyfarfodydd Asesiadau Risg a Sicrwydd

- Ymweliadau Estynedig Arolygydd Cyswllt yr Awdurdod Lleol
- Adroddiadau Thematig
- Adroddiadau Pynciol
- Arolygon

4.2. Rhwng 21 a 23 Hydref 2024, cynhaliodd Richard Thomas HMI a dau gydweithiwr HMI ymweliad estynedig arolygydd cyswllt Awdurdod Lleol a ganolbwyntiodd ar Anghenion Dysgu Ychwanegol a phresenoldeb.

4.3. Mae Estyn fel arfer yn cynnal ymweliad estynedig Arolygydd Cyswllt yr Awdurdod Lleol â phob ALl ddwywaith mewn cylched chwe blynedd (bob dwy flynedd, ond ddim yn y flwyddyn pan mae arolygiad Gwasanaeth Addysg Llywodraeth Leol yn cael ei gynnal). Mae'r ymweliad yn canolbwyntio ar agwedd benodol o Wasanaeth Addysg Llywodraeth Leol yr ALl a fydd yn cael ei gytuno cyn yr ymweliad drwy Arolygydd Cyswllt yr Awdurdod Lleol.

4.4. Fe allai maes i ganolbwyntio arno fod yn un y mae'r ALl yn dymuno i Estyn ei ystyried, fe allai fod yn argymhelliad o arolygiad blaenorol, neu fe allai fod yn faes y mae Estyn yn ei ddewis. Cafodd presenoldeb ac ADY eu dewis yn CSDd yn sgil y ffocws cenedlaethol a ffocws ar y meysydd yma.

4.5. Caiff y gwaith ei wneud dros ddeuddydd ac mae'n cynnwys Arolygydd Cyswllt yr Awdurdod Lleol a dau arolygydd arall.

4.6. Cyn yr ymweliad 3 diwrnod, cytunwyd ar amserlen a chyfarfodydd oedd yn cynnwys cyfarfodydd gyda:

- Y Pennaeth Addysg
- Uwch Swyddogion ADY a Phresenoldeb
- Aelodau'r Tîm
- Prif Weithredwr
- Cadeirydd Craffu Perfformiad
- Aelod Arweiniol Addysg
- Penaethiaid
- Staff Ysgol

4.7. Cyn yr ymweliad cafodd dogfennau priodol eu llwytho i Ystafell Arolygu Rithiol Estyn er mwyn rhoi amser i arolygwyr graffu arnynt.

4.8. Y ddau faes y canolbwyntiwyd arnynt oedd:

1. **Pa mor dda y mae’r awdurdod lleol yn adnabod disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn fuan drwy gydweithio, pontio a gwaith amlasiantaeth.**
2. **Pa mor effeithiol ydi’r awdurdod lleol yn darparu her effeithiol a chefnogaeth wedi’i thargedu i wella presenoldeb disgyblion.**

4.9. Canfuodd Estyn gryfderau ym mhob maes ffocws fel y tynnwyd sylw atynt yn y llythyr canlyniad.

4.10. Nid yw Estyn yn rhoi argymhellion yn ystod Ymweliadau Estynedig ond yn hytrach yn cynnig awgrymiadau i’r ALl eu hystyried. Awgrymodd Estyn 3 phwynt i’w hystyried yn ystod yr ymweliad.

4.11. Nid yw llythyrau Ymweliad Estynedig yn cael eu cyhoeddi ac maent yn cael eu rhoi i gefnogi proses wella’r awdurdod. Fel gwasanaeth rydym ni bellach yn adolygu’r hyn a awgrymwyd ac yn mynd i’r afael â nhw drwy gynlluniau gwella ein maes gwasanaeth.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae’r maes gwaith hwn yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn lle iachach a hapusach lle mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio a chyda’r sgiliau i wneud hynny. Mae hefyd yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn rhywle y gall pobl ifanc ddysgu a datblygu mewn amgylchedd teg a diogel, a chael y cychwyn gorau mewn bywyd.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Efallai y bydd yna gostau ychwanegol yn cyflawni’r argymhellion, ond ein nod yw cadw’r rhain o fewn cyllidebau presennol.

## 6 Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1. Bydd angen Asesiad o Effaith ar Les fel arfer ar gyfer penderfyniadau neu gynigion am newid er mwyn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau’r Gymraeg. Gan mai adroddiad ar ganlyniad arolwg ydi hwn, nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les.

## 7 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Fe ffurfiodd drafodaethau gydag Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd ran allweddol o'r broses arolygu, dyma'r cyfle cyntaf i gyflwyno'r llythyr ar ôl ei gyhoeddi.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oedd yna gostau ychwanegol yn ystod yr arolwg.

## 10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae'r adroddiad arolygu yn tynnu sylw at bob maes a nodwyd oedd angen gwelliant, ac mae'n ffurfio rhan o werthusiad y gwasanaeth a phroses gwella.

## 11 Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Mae pwerau mewn perthynas â'r materion yn yr adroddiad hwn yn unol ag:

- Erthygl 7 o Gyfansoddiad y Cyngor
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015